Cynllun Datblygu Lleol Sir Y Fflint
Chwefror 2015

# Seilwaith

## Papur Testun Rhif 12 – Crynodeb

### Cyflwyniad

Mae sicrhau a darparu seilwaith newydd a/neu wella'r seilwaith presennol er lles cymunedau hen a newydd yn amcan allweddol yn y Cynllun Datblygu Lleol. Mae darparu seilwaith o safon uchel, gan gynnwys trafnidiaeth (ffyrdd a rheilffyrdd), cyfleusterau addysg ac iechyd, dŵr a charthffosiaeth, rheoli gwastraff, mannau agored a thelegyfathrebu'n creu'r amodau angenrheidiol i gynhyrchu buddsoddiad pellach a chreu swyddi. Er enghraifft, mae darparu band eang ffibr cyflym yn creu cyfleoedd i gefnogi busnesau presennol Sir y Fflint a chreu mwy o swyddi yn arbennig mewn ardaloedd gwledig yn y Sir. Yn gryno, mae darparu seilwaith o safon yn rhan anhepgor o gystadlu economaidd a chefnogi ffyrdd iachach o fyw.

### Cyd-destun a Rôl y Cynllun

Bydd y CDLl yn hwyluso datblygiad ar draws y Sir ar gyfer y cyfnod 2015-2030. Bydd yn nodi asedau seilwaith strategol y Sir a bydd proses y cynllun datblygu yn profi gallu'r Sir i ddarparu ar gyfer y datblygiad hwn. Bydd y broses hon yn nodi'r angen am seilwaith newydd neu wella'r seilwaith presennol i gefnogi datblygiadau a gynlluniwyd. Bydd polisïau cynllunio'n ceisio sicrhau fod datblygiadau newydd yn diwallu anghenion a nodwyd o ran seilwaith i sicrhau nad ydynt yn digwydd heb ddarpariaeth ddigonol. Gallai hynny olygu llywio datblygiadau at leoliadau penodol er mwyn defnyddio'r seilwaith presennol ac, os yw'r seilwaith presennol yn annigonnol, sicrhau fod modd ei wella a gwneud hynny er mwyn caniatáu datblygiadau newydd.

### Cynlluniau a Strategaethau Allweddol

- Pobl, Lleoedd, Dyfodol, Cynllun Gofodol Cymru (2004) a Diweddariad (2008)
- Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 5 (2012)
- Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru (2012)
- Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol (2010)
- Cymru'n Ennill, Strategaeth Datblygu Economaidd Cenedlaethol (2002)
- Cymru; Gwlad Well; Agenda Strategol (2003)
- Cynllun Datblygu Gwledig i Gymru (2007-2013)
- Cyflawni ein Potensial 2006-2013; Strategaeth Dwristiaeth i Gymru, adolygiad canol tymor
- Strategaeth Amgylcheddol Cymru (2006) –
- Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Amgylcheddol (2008-2011)
- Dŵr i Bobl a'r Amgylchedd; Strategaeth Adnoddau Dŵr i Gymru (2009).
- Nodiadau Cyngor Technegol
- Ardoll Seilwaith Cymunedol, 'Trosolwg', Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol 2011.

### Materion yr eir i'r afael â nhw yn y Cynllun

Wrth baratoi'r cynllun bydd capasiti'r seilwaith presennol a'r angen am gyfleusterau ychwanegol yn cael ei asesu mewn Asesiad o Anghenion Seilwaith a Chynllun Darparu. Bydd y ddogfen hon yn rhan werthfawr o'r dystiolaeth ategol ar gyfer y CDLl. Bydd y Cynllun Darparu yn werthfawr iawn er mwy darparu eglurdeb ynglŷn ag anghenion y seilwaith yn y dyfodol o ran safleoedd datblygu unigol ac aneddiadau. Bydd

cynhyrchu'r Asesiad o Anghenion Seilwaith ynghyd â'r CDLl yn cynnwys darparwyr seilwaith allweddol gan gynnwys cwmnïau cyfleustodau, asiantaethau trafnidiaeth, iechyd, addysg a sefydliadau cymunedol er mwyn mynd i'r afael â chapasiti gwahanol fathau o seilwaith yn y dyfodol. Y nod fydd ceisio cynyddu'r defnydd a wneir o'r seilwaith presennol i'r lefelau uchaf posibl a nodi anghenion y dyfodol o ran seilwaith ar gyfer datblygiadau a gynllunir.

**Sicrhau Seilwaith** - Her allweddol sy'n wynebu'r Cyngor wrth sicrhau gwelliannau y bydd angen eu gwneud i'r seilwaith i gefnogi'r datblygiadau a gynllunir yn y Cynllun Datblygu Lleol yw cyflwyno'r Ardoll Seilwaith Cymunedol (ASC). Mae deddfwriaeth ASC yn rhoi cyfle i awdurdodau lleol godi treth datblygiad lleol ar ddatblygiadau newydd. Er bo codi ASC yn ddewisol bydd y ddeddfwriaeth newydd yn effeithio ar hyd yn oed yr awdurdodau lleol hynny sy'n dewis peidio â'i ddefnyddio.

Mae gan y rheoliadau ASC sgîl-effeithiau pwysig ar gyfer defnyddio rhywmedigaethau A106 yn arbennig y rheoliadau penodol canlynol:-

- gwneud y prawf ar gyfer defnyddio rhwymedigaethau A106 yn orfodol (A122)
- sicrhau nad oes gorgyffwrdd rhwng defnyddio ASC ac A106 (A123)
- cyfyngu'r defnydd a wneir o rwymedigaethau A106 cyfun ar ôl Ebrill 2015

Yn y dyfodol, ASC fydd dull dewisedig y llywodraeth o gasglu cyfraniadau cyfun i ariannu seilwaith a bydd parhau i ddefnyddio tariffiau sy'n seiliedig ar A106 yn dod yn fwyfwy o broblem.

Mater allweddol i CDLl Sir y Fflint fydd pennu p'un a fyddai modd cefnogi ASC Sir y Fflint mewn modd dichonol drwy ddatblygu yn y Sir ac os gall wneud hynny, dod â'r sylfaen tystiolaeth at ei gilydd i gefnogi datblygiad ASC ar ôl mabwysiadu'r CDLl. Trwy ddatblygu ASC bydd Sir y Fflint yn parhau i ddefnyddio Cytundebau Adran 106 fodd bynnag bydd yn eu targedu at fathau penodol o liniaru datblygiadau; rheoli datblygiadau; tai fforddiadwy; ac ar gyfer prosiectau seilwaith penodol.

## Polisïau / Cynigion Defnydd Tir Posibl

Bydd angen Polisi Seilwaith Strategol yn y CDLl a fydd yn gysylltiedig â pholisïau mwy manwl megis Trafnidiaeth Integredig, Rheoli Gwastraff, Mannau Agored a Chyfleusterau Cymunedol.